

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 28ain Dachwedd 2018

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, John D Jones, Prys Ellis, Ffion Williams, Maria Roberts, - Guto Jones, Ieuan Jones, Einion Edwards, Trystan Humphreys, Cyngorydd Sir, Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24ain Hydref 2018.

Materion yn Codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.1] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Tocio'r Coed

Nodwyd bod y mater yn parhau

[1.2] Grŵp Cynefin/ Anghenion Tai Cymuned Cerrig-y-Drudion

Croesawyd Mr Arfon Hughes i'r cyfarfod a trafodwyd ei adroddiad ar anghenion tai yn y gymuned. Cytunodd i wneud ymholiadau pellach ynglyn a preswylwyr oedd yn awyddus i gyfnewid cartref gyda tenant arall am dy mwy neu lai.

[1.3] Cwmni Innogy /Fferm Wynt Clocaenog

[a] Cytunodd pawb i lenwi ffurflen ei hunain ai hanfon yn ol i'r cwmni.

[b] Cadwyn Clwyd – Y clerch i wneud ymholiadau ynglyn a'r gronfa ariannol

[1.4] Pont Pentrellyncymer

Deallwyd yn siomedig bod y gwaith i atgyweirio'r bont heb ei wneud a bod y Cyngor Sir wedi datgan bod y gwaith ar y rhestr i gael sylw.

[1.5] London House/ Perygl wrth Groesi'r Ffordd

Deallwyd bod y Cyngor Sir yn trefnu i osod arwydd i rybuddio gyrrwyr modur fod pobl yn croesi'r ffordd yn y lleoliad

[1.6] Arwydd Cyflymder Stryd King

Eglurodd y clerch fod y Cyngor Sir yn cynghori nad oedd yr arwydd bellach yn a addas i'w symud gyferbyn a'r ysgol gan fod gwaharddiad cyflymder yn y lleoliad wedi ei newid. Deallwyd fod cost arwydd o'r newydd o ddeutu £1500.00. Y clerch i wneud ymholiadau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynglun ac iddynt ystyried gwneud cyfraniad tuag at y gost.

[1.7] To'r Shelter

Deallwyd gan Trystan Humphreys nad oedd angen sylw i'r to ar hyn o bryd.

[1.8] Peiriant Twll yn y Wal

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.9] Ymddiriedolaeth Parc [Cae Llwyd]

Cafwyd adroddiad gan Maria Roberts o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar sef yn bennaf bod cais wedi ei wneud gyda'r Cyngor Sir iddynt gynnwys yr ychwanegiad a wnaed i'r cyfleusterau chwaraeon yn ei polisi insiwrans.

## Y brif Agenda

### [2] Ceisiadau Cynllunio

[a] Storfa Arfaethedig i Wartheg [b] Storfa peiriannau arfaethedig. Llaethwryd, Cerrig-y-Drudion.  
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

### [2.2] Cyflog Gofalwraig yr Ystafell Blwyf

Penderfynwyd gosod cyflog Menai Hughes yn unol â dyletswydd o 1.25 awr yr wythnos ac yn unol a chyflog lleiafrif gwladol £7.83 yr awr, sef £500.00 y flwyddyn

### [2.3] Cynllun Chwarae'r Haf

Penderfynwyd cyfrannu £350.00 tuag at y cynllun ar gyfer y flwyddyn 2019.  
Y cler c i wneud ymholiadau pellach ynglun a chynllun y chwaraeon peldroed.

### [2.4] Adolygiad o'r Gyllideb

Penderfynwyd cymeradwyo'r adolygiad a baratowyd gan y cler c.

### [2.5] Tyllau yn y Ffordd

Y cler c i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglyn a chyflwr y ffordd o groesffordd Gwesty'r Saracens i gyfeiriad Cwmpenanner.

### [2.6] Parciau Cwn Cymunedol

Cyfeiriodd y cler c at lythyr oddiwrth y Cyngor Sir yn awgrymu creu Parciau Cwn Cymunedol a fyddai wedi ei neilltuo ar gyfer perchnogion cwn i ymarfer eu cwn yn gyfreithlon.  
Penderfynwyd nad oedd y Cyngor Cymuned yn cytuno a'r syniad.

Cadeirydd \_\_\_\_\_